No.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: D. Kumar (Deiliad Trwydded), Mr. L. Stelling (Cynrychiolydd Deilydd y Drwydded - Coleridge Law), Miss. P. Kumar (Cyfieithydd Aelod Teuluol), K. Evans (Swyddog Trwyddedu – Bro Morgannwg), I. Agostini -Green (Awdurdod Cyfrifol: Swyddog Trwyddedu Bro Morgannwg), J. Docherty (Swyddog Cyfreithiol – Bro Morgannwg), A. Rudman (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu – Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Bod y Cynghorydd P. Drake yn cael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Adolgu Trwydded Safle – D.K. Stores, 87 Court Road, Y Barri, CF63 1ET (AT) -

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr Is-bwyllgor a diolchodd i'r Swyddog Gwasanaethau Craffu a Democrataidd am wneud cyflwyniadau a rhoi gwybod am y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer y gwrandawiad fel y cynhwyswyd yn yr agenda.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd yr Awdurdod Trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor. Cynrychiolwyd yr Awdurdod Trwyddedu gan Ms Evans, fodd bynnag, oherwydd problemau technegol, cyflwynodd cydweithiwr Ms Evans, Mrs. Agostini-Green, yr achos ar ran Ms Evans a ymunodd â'r cyfarfod yn

ddiweddarach yn fuan ar ôl iddo ddechrau. Dywedodd Mrs. Agostini-Green mai diben yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor oedd ystyried a phenderfynu ar gais a gyflwynwyd gan Orfodi Trwyddedu i adolygu'r drwydded safle yn D.K. Stores, 87 Court Road, Y Barri, CF63 1ET dan Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adolygu trwydded safle PRM AS0663, yn ymwneud â D.K. Stores. Mr. D. Kumar oedd Deiliad Trwydded y safle a Mrs. R. Datta oedd y Goruchwylydd Safle Dynodedig. Atodwyd y cais am adolygiad a'r drwydded safle i'r adroddiad.

Yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, cyflwynwyd y cais i Ddeiliad Trwydded y safle ac anfonwyd copïau o'r cais at yr Awdurdodau Cyfrifol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol o 28 diwrnod roedd y cais wedi cael ei hysbysebu yn unol â'r rheoliadau ac ni chafwyd unrhyw sylwadau.

Mae adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn nodi, pan fo trwydded safle ar waith, y gall Awdurdod Cyfrifol neu unrhyw berson arall wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol i adolygu'r drwydded. Rhaid i hyn ymwneud â phryder sy'n codi yn y safle mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Nododd y cais bryderon bod y safle wedi tanseilio’r amcan trwyddedu diogelu plant rhag niwed trwy werthu alcohol i berson dan 18 oed, yn ogystal â thorri amodau trwyddedu yn ymwneud â gwerthu i bobl dan oed.

Yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, rhoddodd Mrs. Agostini-Green wybod i’r Is-bwyllgor am amserlen y digwyddiadau a oedd wedi peri pryder a’r dystiolaeth gysylltiedig fel y nodwyd yn fanwl yn y cais am adolygiad, yn ogystal ag wyth amod awgrymedig i’w gosod ar y drwydded safle mewn perthynas â’r amcan trwyddedu Diogelu Plant rhag Niwed.

I gloi, dywedodd Mrs. Agostini-Green y gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y cais gan ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, y cais ac unrhyw gyflwyniadau. Yr opsiynau a oedd ar gael i'r Is-bwyllgor oedd peidio â chymryd unrhyw gamau, neu fel arall cymryd unrhyw un o'r camau canlynol os oedd yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

a) addasu amodau’r drwydded;
b) eithrio gweithgaredd trwyddedadwy rhag cwmpas y drwydded;
c) gwaredu’r goruchwylydd safle dynodedig;
ch) atal y drwydded am gyfnod nad yw’n hwy na thri mis;
d) dirymu'r drwydded.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd Ddeiliad y Drwydded neu ei Gynrychiolydd i gyflwyno ei achos. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod Deiliad y Drwydded wedi cyfaddef i'r camgymeriad ac wedi cytuno â'r holl amodau arfaethedig a nodwyd gan yr Awdurdod Cyfrifol. Ar ben hynny, roedd Deiliad y Drwydded eisoes wedi gosod y rhan fwyaf o'r amodau arfaethedig ac roedd ganddo fwriadau llawn i’w gosod i gyd wrth symud ymlaen. At hynny, roedd

Deiliad y Drwydded yn cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o staff y safle yn dal trwydded bersonol a gwnaeth gynnig cyflwyno unrhyw wybodaeth yn ôl yr angen i'r Awdurdod Lleol bob mis. Roedd Deiliad y Drwydded yn deall yn iawn mai ef oedd yn gyfrifol am ymgymeriadau'r busnes.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i Ddeiliad y Drwydded.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Norman ynglŷn â pham nad oedd yr amodau arfaethedig fel y derbyniwyd gan Ddeiliad y Drwydded yn eu lle fel arfer safonol yn flaenorol, dywedodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded fod Deiliad y Drwydded a'i wraig, Mrs Datta, yn sicrhau eu bod yn gwirio dealltwriaeth yr holl staff a gyflogir yn y safle o gyfreithiau gwasanaeth ar lafar a’u bod yn hyderus mai’r ddau ddigwyddiad yn cynnwys gwerthu i bobl dan oed, fel y nodwyd gan yr Awdurdod Lleol, oedd yr unig ddau o'u math. Cydnabu Deiliad y Drwydded nad oedd cofnodion papur blaenorol wedi bodoli yn ôl y disgwyl, ond roedd mesurau bellach wedi'u rhoi ar waith i liniaru hyn a byddai'n ymdrechu i sicrhau bod yr holl fesurau ar waith yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn a datganiad atodol gan y Cynghorydd Norman ynghylch oedran staff y safle yn ogystal â phe bai staff wedi'u hyfforddi'n iawn, yna ni fyddai'r digwyddiadau dan sylw wedi digwydd yn y lle cyntaf, dywedodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded fod Deiliad y Drwydded yn deall pryder yr Is-bwyllgor yn llwyr ac nad oedd y digwyddiadau'n dderbyniol. Fodd bynnag, y cyfan y gallai Deiliad y Drwydded ei wneud wrth symud ymlaen oedd gwella arferion a sicrhau bod yr holl fesurau angenrheidiol ar waith. Cadarnhaodd Deiliad y Drwydded hefyd fod yr holl staff sy'n gweithio yn y safle dros 18 oed.

Yna nododd y Cynghorydd Morgan fod y materion mewn perthynas â staff yn y safle yn ymwneud ag atal dros dro a hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddeddfu ac, mewn perthynas â goruchwylio staff, gofynnodd a oedd Deiliad y Drwydded a'r Goruchwylydd Safle Dynodedig wedi'u lleoli yn y safle. Cadarnhaodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod Deiliad y Drwydded a’r Goruchwylydd Safle Dynodedig yn gweithredu o'r safle.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Morgan ynghylch a oedd Deiliad y Drwydded yn fodlon derbyn yr wyth amod ychwanegol fel y cynigiwyd gan yr Awdurdod Cyfrifol, dywedodd Cynrychiolydd yr Apelydd fod Deiliad y Drwydded yn fodlon eu derbyn, fodd bynnag, gofynnodd am ymarferoldeb amod 2 y bydd "rhif ffôn cyswllt ar gyfer Deiliad y Drwydded Safle / y Goruchwylydd Safle Dynodedig neu berson enwebedig arall ar gael bob amser pan fydd y siop yn gwerthu alcohol" gan nodi pryderon y gallai rhif sydd ar gael / ar ddangos yn rhwydd gael ei gamddefnyddio ac arwain at gyswllt diangen. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Awdurdod Trwyddedu fod yr amod yn ymwneud â sicrhau bod rhif ar gael ar gais ac nid rhif a fyddai’n cael ei arddangos yn gyhoeddus. Cynigiodd Deiliad y Drwydded roi cyfeiriad e-bost yn ogystal â rhif ffôn cyswllt hefyd fel diwygiad i amod 2.

Yna dywedodd yr Awdurdod Cyfrifol fod gan Ddeiliad y Drwydded ail fusnes ar wahân mewn ardal arall o fewn yr Awdurdod ac felly holodd ddatganiad Deiliad y

Drwydded y byddai wedi'i leoli yn y safle. Er eglurhad, cadarnhaodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded fod gan Ddeiliad y Drwydded fusnes arall y byddai Deiliad y Drwydded a'r Goruchwylydd Safle Dynodedig hefyd yn ymweld ag ef, fodd bynnag, mewn perthynas â'r safle dan sylw, byddent yn bresennol yn y safle yn ddyddiol a byddent yn sicrhau y byddai o leiaf un ohonynt yn bresennol yn y safle bob amser. Felly, ni fyddai'r ddau ohonynt yn bresennol yn y safle ar gyfer pob awr gwaith, ond byddent yn cymryd eu tro i fod yn bresennol yn y safle. Bryd hynny, byddent yn siarad â'r staff yn gweithio yn y safle ac yn gwirio'r cofnodion angenrheidiol yn ddyddiol.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, manteisiodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded ar y cyfle i roi gwybod i'r Is-bwyllgor fod dau fab Deiliad y Drwydded wedi cwblhau cwrs trwydded bersonol yn Llundain yn ddiweddar ac mai eu bwriad oedd bod yn staff llawn amser yn y safle ar ôl iddynt ennill mwy o brofiad.

Gofynnodd yr Awdurdod Cyfrifol i Ddeiliad y Drwydded pam y gwelwyd yr aelod o staff a oedd wedi gwerthu alcohol i berson dan oed ar 22 Rhagfyr 2023, y nodwyd ei fod wedi'i geryddu ac y terfynwyd ei gyflogaeth gan Ddeiliad y Drwydded ar 5 Chwefror 2024, yn gweithio yn y safle a gadarnhawyd felly i'r Awdurdod Lleol gan y Goruchwylydd Safle Dynodedig ar 28 Mai 2024, a chadarnhaodd Deiliad y Drwydded fod cyflogaeth yr unigolyn wedi'i derfynu rhywbryd ym mis Chwefror 2024 ond roedd yr unigolyn wedi dychwelyd am un diwrnod i gymryd lle aelod o staff a oedd absennol oherwydd salwch.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Morgan ynghylch a oedd y Goruchwylydd Safle Dynodedig yn ymgymryd â'r un cyfrifoldebau mewn unrhyw safle arall, cadarnhaodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded mai Mrs Datta oedd yr unig Oruchwylydd Safle Dynodedig ar gyfer y safle dan sylw.

O ystyried y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad, cadarnhaodd y Cadeirydd gyda'r Swyddog Trwyddedu nad oedd unrhyw sylwadau eraill gan Bartïon â Diddordeb wedi'u derbyn ac felly gwahoddodd y rhai a oedd yn cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad i grynhoi.

Dywedodd yr Awdurdod Cyfrifol y dylai'r llythyrau rhybuddio blaenorol a'r ohebiaeth gan yr Awdurdod Lleol fod wedi bod yn ddigon o rybudd i Ddeiliad y Drwydded wneud gwelliannau yn ôl yr angen yn llawer cynharach. Felly, mewn perthynas â'r masnachu hyd yma, roedd hyn yn dangos amharodrwydd neu ddiffyg gallu Deiliad y Drwydded i gydymffurfio â'r gyfraith.

Dywedodd Cynrychiolydd Deiliad y Drwydded fod Deiliad y Drwydded yn ymgymryd â gofynion angenrheidiol ei drwydded yn llwyr ac yn cydnabod y dylid bod wedi cymryd camau priodol yn gynharach.

Gyda'r holl bartïon yn cael cyfle i wneud eu sylwadau a heb gwestiynau pellach gan Aelodau'r Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod a chyda chadarnhad ysgrifenedig o resymau'r Is-bwyllgor i ddilyn.

PENDERFYNWYD – Diwygio amodau Trwydded PRM AS0663 i gynnwys yr amodau a ganlyn, fel y cynigiwyd gan yr Awdurdod Cyfrifol ac y cytunwyd arnynt wedyn gan Ddeiliad y Drwydded:

1. Rhaid defnyddio til sydd ag ‘anogwr oed’ awtomatig bob amser i gynorthwyo staff sy’n gwirio oedran o ran gwerthu alcohol, a chynhyrchion eraill sydd â chyfyngiad oedran (i’w gosod o fewn 2 fis i’r penderfyniad).

2. Bydd rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer Deiliad Trwydded y Safle / Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu berson enwebedig arall ar gael bob amser pan fo'r siop yn gwerthu alcohol. Bydd y rhif ffôn a’r cyfeiriad e-bost ar gael i breswylwyr, cwsmeriaid ac awdurdodau cyfrifol ar gais.

3. Yn absenoldeb y Goruchwylydd Safle Penodedig bydd person enwebedig yn rheoli'r eiddo - bydd yr enwebiad hwn yn ysgrifenedig a bydd cofnod neu hwn ar gael i'w archwilio.

4. Bydd yr holl staff sy'n gwerthu alcohol yn cael eu hawdurdodi'n ysgrifenedig i werthu alcohol a bydd cofnod o'r caniatâd yn cael ei gadw yn y siop sydd ar gael i'w archwilio gan bersonau awdurdodedig.

5. Bydd yr holl staff sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol yn cael hyfforddiant ar apwyntiad cyntaf ac yna bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei ddarparu bob chwarter. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am gyfyngiadau oedran / Her 25, gwerthu alcohol i rywun sy'n feddw, a gwerthiannau dirprwy. Cedwir cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a gyflawnwyd. Bydd y cofnodion hyn ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol ar gais (i ddisodli'r amod hyfforddi presennol).

6. Bydd hysbysiad(au) yn cael eu harddangos yn glir yn y fynedfa ac wrth y fynedfa i'r eiddo yn hysbysu cwsmeriaid bod polisi Her 25 yn ei le.

7. Bydd rhestr wirio diwydrwydd dyladwy (wedi'i hanelu at atal unrhyw werthiannau dan oed a chynnal cofnodion da) yn cael ei chadw ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu a swyddogion awdurdodedig eraill.

8. Bydd hysbysiad(au) yn cael eu harddangos yn yr eiddo lle gellir eu gweld yn glir i hysbysu cwsmeriaid ei bod yn anghyfreithlon i bobl o dan 18 oed brynu alcohol neu i unrhyw berson brynu alcohol ar ran unrhyw berson dan 18 oed.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

Wrth ddod i’w benderfyniad, mae’r Is-bwyllgor wedi ystyried yr adolygiad ynghyd â phawb sydd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Mae wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y’i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau’r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor.

Roedd yr is-bwyllgor yn bryderus ynghylch yr achosion o werthu alcohol i bobl dan oed ar fwy nag un achlysur yn groes i'r Drwydded bresennol. Roedd yr is-bwyllgor

yn cydnabod derbyniad diamod y perchnogion, eu edifeirwch, a'r ffaith eu bod eisoes wedi cymryd camau i ddarparu hyfforddiant pellach a chynnal cofnodion hyfforddi yn unol ag amodau'r Drwydded. Er gwaethaf hyn, teimlai'r is-bwyllgor fod cyfiawnhad dros addasu'r Drwydded i gynnwys amodau pellach fel y'u nodwyd yn Adroddiad y Swyddogion er mwyn atal achosion o werthu dan oed yn y dyfodol ac amddiffyn plant rhag niwed.